# Adroddiad Grŵp Project BGC

Paratowyd gan: Teleri Elias

| | |
|---|---|
| **Nod y Cynllun Llesiant** | Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23. Byddai fframwaith yn seiliedig ar lefydd yn blaenoriaethu integreiddio ac yn cynnwys dull cyfannol a dwfn o ymdrin â chydnerthedd cymunedau ac unigolion. |
| **Ein Gwerthoedd** | Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy Esiampl |
| **Enw'r Grŵp Project** | Gwella Llesiant Cymunedol a Thaclo Tlodi yn Aberteifi |
| **Cadeirydd** | **Hazel Lloyd-Lubran**, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) |

| **Aelodaeth y Grŵp Prosiect (Yr enwau mewn print trwm oedd yn bresennol yn y cyfarfod)** | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | **Y Cynghorydd Elaine Evans**, Llyr Hughes, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins, Rob Starr, **Carys Owens,** Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, Catrin George, Catrin Cond, **Alison Heal,** Dr Sarah Groves Phillips, Carwyn Young, Connor Cook, Bethan James, **Robin Stanley, Cathryn Morgan,** Rob Star, **Emily Edwards,** Rhiannon John, Tîm Partneriaethau: **Timothy Bray** Sara Dafydd, **Lynne Walters**, Anwen Thomas, **Teleri Elias** | Tai Wales & West | **Rhiannon Ling,** Elizabeth Morgan |
| | | CAVO | **Chesca Ross** |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda | Vicki Howell-Williams, Sue John, **Terri-Ann Patrick,** Jackson Reynolds, Megan Harris, Jan Batty, **Geinor Jones** | Swyddfa Ben Lake | Carys Lloyd |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | William Bowen, Wayne Thomas, Ritchie Felton | Cyfoeth Naturiol Cymru | Aled Davies,Peter Frost, Sarah Coakham |
| Barcud Ceredigion | Catrin Owen, **Sue Thomas** | Menter a Busnes | Ann Owen |
| CAB Ceredigion | Glynis Llewelyn, Juliet Morris, Sue Lewis | Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Roxanne Treacy |

**CRYNODEB O GYFARFOD Y GRŴP PROJECT**

**Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 24.04.24**

**12.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:**
Croesawodd Hazel Lloyd Lubran (HLL) bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau ffurfiol canlynol:
Catrin George, CSC
Vikki Butler, Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Ar ddechrau'r cyfarfod, esboniodd y Cadeirydd nad oedd Melanie Walters, Cydlynydd Gofalwyr a Chymorth Cymunedol, CSC, yn gallu mynychu'r cyfarfod hwn fore heddiw yn anffodus, felly byddai'r cyflwyniad gan Geinor Jones, Pwysau Iach: Cymru Iach, Ffocws ar Aberteifi a De Ceredigion yn cael ei recordio er mwyn gallu ei rannu gyda hi ar ôl cyfarfod heddiw.

**12.2 Cofnodion a materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol – 18/01/24**
Nodwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol (18 Ionawr) a chytunwyd bod yr holl faterion yn codi o'r trafodaethau wedi cael sylw neu wedi cael eu hadlewyrchu yn yr agenda ar gyfer cyfarfod heddiw, ac y byddant yn cael eu cwblhau wedi hyn.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y camau gweithredu canlynol o'r cyfarfod blaenorol:

- Y partneriaid i gael cyflwyniad a fydd yn rhoi diweddariad yn ystod y cyfarfod nesaf, gan nodi'r hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol a pha brosiectau a ariannwyd eleni, a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar ardal Aberteifi.

Nododd Lynne Walters (LW) y bydd Catrin Owen yn rhoi cyflwyniad wedi'i ddiweddaru yn ystod y cyfarfod nesaf (17.07.24) am y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), gan ganolbwyntio yn arbennig ar themâu o ddiddordeb yn y dref. Nododd HLL bod yr SPF yn weithredol tan ddiwedd mis Rhagfyr. Mae'r panel wedi cyfarfod yn rheolaidd i gynnwys prosiectau a gyflwynwyd mewn rhestr fer. Mae nifer y prosiectau sy'n destun archwiliadau cymhwystra ar hyn o bryd yn uchel. Nododd Emily Edwards (EmE) ei bod hi wedi ceisio ymgeisio, ond ei fod wedi cau, a bydd HLL yn rhoi gwybod i EmE os bydd hwn yn ailagor.

- Cysylltir ag Ann Owen a rhennir diweddariad am brosiect Rhwydwaith Bwyd Ceredigion gydag aelodau'r grŵp.

Daeth y prosiect gwreiddiol i ben ddiwedd fis Mawrth '24, ac maent wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru am 12 mis pellach er mwyn galluogi'r rhwydwaith i barhau.

**Gweithredu- Dosbarthu adroddiad ysgrifenedig Ann Owen, gan fapio manylion a lleoliadau'r holl brosiectau a'r mentrau ar draws y Sir.**

Hysbyswyd y panel gan HLL ei bod wedi mynychu cyfarfod Cyngor Tref Aberteifi ym mis Ionawr, lle y cawsant drafodaeth am flaenoriaethau'r dref a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol. Y ddau fater allweddol a godwyd yn ystod y cyfarfod hwn oedd llythrennedd digidol a phroblemau trafnidiaeth.

Hysbyswyd y grŵp gan LW bod Rhaglen Arfor wedi cynnal sesiynau yn Aberteifi yn canolbwyntio ar dai ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

**Gweithredu- Rhennir diweddariadau am raglen Arfor gydag aelodau'r panel.**

**<u>12.3 Cyflwyniad : Dull Systemau Cyfan : Pwysau Iach : Ffocws ar Aberteifi, De Ceredigion.</u>**

Cyflwynodd Geinor Jones (GJ) ei hun fel Ymarferydd Uwch Iechyd Cyhoeddus yn y Tîm Iechyd Cyhoeddus ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (BIPHDd). Rhoddodd GJ gyflwyniad am y Dull Gweithredu Systemau Cyfan (WSA) tuag at bwysau iach.

Yn 2019, lansiodd LlC Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach, gyda'r nod o atal a lleihau gordewdra yng Nghymru. Cydlynir y dull gweithredu ar lefel genedlaethol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a chaiff ei weithredu'n lleol.

Rhoddir dolen i Adroddiad Pwysau Iach Cymru Iach – cam 1 Hywel Dda yma :

Atodiad A HDda
Pwysau Iach, Cymru Ia

Nod y gwaith hwn yw galluogi rhanddeiliaid lleol i ddod ynghyd i gytuno ar gamau gweithredu a chydweithio mewn ffordd integredig i sicrhau newid hirdymor cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar greu'r amodau sy'n hyrwyddo pwysau iach yng nghyd-destun iechyd a lles gwell.

Gweler dolen i erthygl newyddion y BBC am ordewdra yng Nghymru (24 Ebrill):
**https://www.bbc.co.uk/news/articles/c3g59412wjzo**



DRAFT

Ym mis Chwefror 2023, hwylusodd y Tîm Iechyd Cyhoeddus, gyda chymorth Prifysgol Beckett Leeds, gyfres o dri gweithdy mapio 'system gyfan'. Yn ystod y gweithdai, bu'r cyfranogwyr yn datblygu 14 o fapiau system ar bapur. Yna, trosglwyddwyd y rhain i feddalwedd mapio system. Nododd GJ mai'r camau nesaf fydd rhannu'r mapiau ac allbynnau'r gwaith hyd yn hyn yn eang gyda phartneriaid a chymunedau. Mae adroddiad cryno wedi cael ei baratoi hefyd.

Cliciwch yma i wylio fideo byr sy'n esbonio beth yw dull gweithredu systemau tuag at bwysau iach:
[Systems - Healthy Weight Healthy You]

**<u>12.4 Yn dilyn y cyflwyniad yma bydd trafodaeth yn canolbwyntio ar osod ffocws ynghyd a'r blaenoriaethau cychwynnol ar gyfer gweithredu ar y cyd yn Aberteifi.</u>**
**Bydd hyn yn ymgorffori'r materion isod:**
- **Fframwaith Llywodraethu a Chyflawni BGC Ceredigion – gan gynnwys adborth gan y BGC.**
- **Cylch Gorchwyl ac aelodaeth y grŵp**

Hysbyswyd y panel gan GJ nad yw'r prosiect Dull Gweithredu Systemau Cyfan (WSA) wedi cael ei gyfleu i'r cyhoedd eto, a hwn fydd un o'r camau nesaf. Nododd GJ bod natur wledig a bwydo ar y fron yn themâu a fynegwyd yn ystod y gweithdai strategol yn yr ardal hon hefyd.

Dywedodd HLL bod y WSA yn cysylltu'n dda gyda'r adroddiad data iechyd cyhoeddus a gafwyd gan Jan Batty ynghylch clwstwr Ceredigion yn ystod y cyfarfod blaenorol. Yn ystod y cyfarfod hwn, hysbyswyd aelodau o lefelau uchel clefyd cardiofasgwlaidd, diabetes a lefelau gordewdra yn yr ardal hon. Roedd pawb yn cytuno bod angen i'r gwaith hwn fod yn faes y rhoddir ffocws iddo wrth symud ymlaen â'r rhaglen waith.

Nododd Terri Ann Patrick (TAP) bod plant yn agored i niwed pan ystyrir y bwyd y maent yn ei fwyta yn eu cartrefi, ac mae cost uchel bwyd iach yn ffactor mawr yn hyn. Ceir sawl sefydliad sy'n darparu dosbarthiadau/rhaglenni coginio yn yr ardal. Awgrymodd EE y dylid gwahodd cynrychiolydd o un o'r grwpiau hyn i gyfarfodydd yn y dyfodol. Nododd LW bod cysylltiadau gyda grwpiau rhieni trwy ysgolion cynradd ac uwchradd Aberteifi i ddarparu dosbarthiadau coginio o bosibl yng Ngholeg Ceredigion. Mae Sam Everton yn gyn fyfyriwr yn adran arlwyo Coleg Ceredigion, ac mae wedi cael ei gydnabod fel un o gogyddion ifanc blaenllaw y flwyddyn, ac awgrymodd LW y byddai modd cysylltu'r gwaith hwn gyda Choleg Ceredigion i gryfhau rôl addysg yn y mater a darparu a chynorthwyo dosbarthiadau coginio.

Nododd Rhiannon Ling (RL) bod Tai Wales and West yn gobeithio cynnwys coginio bwyd iach a thyfu cynnyrch yn eu gweithgareddau gyda theuluoedd yn ystod yr haf eleni, a bydd hyn yn rhan o'u rhaglen o weithgareddau.

Trafododd Cathryn Morgan (CM) bwysigrwydd bod yn egnïol, ac awgrymodd brosiectau beicio. Awgrymodd HLL y dylid cael trafodaeth gyda Cardi Sheds ac archwilio posibilrwydd e-feiciau. Nododd LW y Siarter Teithio Iach gan Rhian Rees iechyd y cyhoedd, ac mae'r prosiect hwn yn

cysylltu’n dda â’r darn hwn o waith sy’n adrodd i’r grŵp cyflawni arall, Hinsawdd a Natur.  Codir y mater hwn yn ystod eu cyfarfod nesaf wythnos nesaf.

Awgrymodd HLL bod angen iddynt ailymweld â phrosiectau a ariannwyd gan Gynnal y Cardi dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ganolbwyntio ar brosiectau sy’n ymwneud â bwyd a gweithgarwch.  Awgrymodd HLL y dylid ystyried yr aelodaeth a chynnwys rhai o’r grwpiau hyn sy’n gysylltiedig â bwyd a gweithgarwch.  Hysbyswyd y panel gan Chesca Ross (CR) eu bod wedi bod yn gweithio gyda Jane Powell ar y rhwydwaith bwyd a’u bod yn cynnal y map ar Connect, ac awgrymodd CR y dylid mynd yn ôl at y map hwn, gan weithio ar yr hyn sydd yno eisoes.

Hysbyswyd y panel gan Alison Heal (AH) o fodolaeth grant cymorth rhandiroedd eleni, sy’n targedu’r gwaith o greu mannau tyfu a rhandiroedd newydd.  Cyflwynwyd cynllun gwaith i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, a nododd AH eu bod yn chwilio am safleoedd addas yn ardal Aberteifi.  Bydd grant cronfa cyfalaf ar gael cyn bo hir gyda Lleoedd Lleol ar gyfer Natur, a weinyddir gan gydlynydd y bartneriaeth Leol, Rachel Aukland, ac mae’r cyllid hwn ar gyfer natur ond mae hefyd yn cynnwys tyfu bwyd.

**Gweithredu– Rhannu gwybodaeth am gronfa cyfalaf y Bartneriaeth Natur Leol pan fydd yn agor gydag aelodau’r panel.**

Rhoddodd TB ddiweddariad am gynllun cyflawni BGC, sy’n cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac a gaiff ei gyhoeddi cyn cyfarfod nesaf BGC.  Yn ystod cyfarfod BGC blaenorol, cytunwyd y byddant yn cynnal sesiynau hyrwyddo o fewn cyfarfodydd;  y grŵp Hinsawdd a Natur fydd y grŵp cyntaf i dreialu hyn, gan ystyried y blaenoriaethau ar gyfer y grŵp ynghyd â’r Asesiad Risg Newid Hinsawdd, sy’n ddarn o waith ar gyfer pob BGC, a chyflwynir hwn i NRW.  Mynychodd TB a HLL ddigwyddiad dysgu yn Wrecsam, lle y cyflwynwyd manylion profiadau a rannwyd a syniadau newydd posibl iddynt am sut y mae BGCau eraill yn gweithredu a sut y gallai arfer gorau gynorthwyo ar draws ardaloedd eraill, ac roedd un syniad a weithredwyd mewn ardaloedd eraill yn canolbwyntio ar lywodraethu a defnyddio’r model aur, arian ac efydd fel fframwaith ar gyfer sut y maent yn gweithredu.  Mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y cynllun cyflawni nawr ac mae cyfleuster olrhain gweithredu wedi cael ei gynnwys, a gaiff ei ddiweddaru yn ystod pob cyfarfod BGC.  Mae grŵp yn gyfrifol am yr amcanion lles.  Cyfarfu grŵp gorchwyl a gorffen yn ddiweddar i drafod y lansiad, ac maent yn casglu’r awgrymiadau o’r cyfarfod ar hyn o bryd, a bydd cynnig yn mynd gerbron cyfarfod nesaf BGC.  Nododd TB y gallai’r lansiad ganolbwyntio ar dri is-grŵp BGC, gan ystyried digwyddiadau yn yr ardaloedd ffocws hyn i uno’r lansiad.

Hysbyswyd y panel gan TB y bydd y Comisiynydd yn ymweld ag awdurdodau lleol yn y dyfodol agos i drafod tlodi gwledig.
Nodwyd hefyd bod cyfleuster archwilio cynnydd ‘Ffyrdd o Weithio’ wedi cael ei gyhoeddi ar y wefan lles, sy’n offeryn defnyddiol sy’n galluogi BGCau a sefydliadau i archwilio eu cynnydd yn erbyn ffyrdd o weithio dan y Ddeddf Llesiant.  Mewn llythyr at gyrff cyhoeddus yn ddiweddar, anogodd y Comisiynydd gyrff cyhoeddus i ddefnyddio’r offeryn, a rhennir y canlyniadau hyn erbyn 9 Medi 2024.  Hysbyswyd y panel am fwletin BGC gan TB.  Caiff yr adnodd hwn ei ystyried gan BGC dros y misoedd nesaf.

Nododd HLL y byddant yn parhau i archwilio cyfleoedd sy’n ymwneud â bwyd a gweithgarwch.  Bydd y grŵp dosbarthu yn gwahodd GJ yn ôl i gyfarfod yn y dyfodol.

**Gweithredu- Bydd Lynne Walters yn rhannu recordiad o gyflwyniad fore heddiw gan Geinor Jones gyda Melanie Walters a'r prif bwyntiau gwybodaeth a drafodwyd mewn perthynas â'r Dull Gweithredu System Gyfan, a chaiff y ddolen fideo ei rhannu gyda grŵp cyflawni Hinsawdd a Natur BGC.**

Hysbyswyd yr aelodau gan HLL y cynhelir sesiwn lansio ddechrau fis Mai '24 a fydd yn ystyried y gwaith "Siapio Lleoedd" a gyflawnir gan y tîm Iechyd Cyhoeddus.

**Gweithredu – Rhoddir diweddariad pellach yn ystod cyfarfod o'r grŵp hwn yn y dyfodol ynghylch lansiad gwaith "Siapio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru" gan Iechyd Cyhoeddus.**

**<u>12.5 Eitemau Sefydlog : Diweddariadau cynlluniau a phrosiectau gan gynnwys :</u>**

- **Blaenoriaethau Cyngor Tref Aberteifi.**

Cadarnhaodd HLL y byddant yn parhau'r sgyrsiau gyda Chyngor Tref Aberteifi.

- **Ysgol Gymunedol**

Hysbyswyd y grŵp gan EmE eu bod wedi llwyddo i sicrhau grant i sefydlu prosiectau gardd a bod y gwaith hwn yn cychwyn nawr. Roedd Ysgol Gynradd Aberteifi wedi cael grant i redeg prosiect Bwyd a Hwyl eleni hefyd, a gynhelir yn ystod y gwyliau haf. Yn ogystal, bydd disgyblion Ysgol Uwchradd Aberteifi yn cychwyn ar brosiect newydd dros yr wythnosau nesaf, lle y byddant yn mynd allan i gartrefi gofal i ddarparu a chael cymorth dan fframwaith "cymorth cyfeillio".

- **Rhaglen waith Canolfan Llesiant Aberteifi.**

Mae Carwyn Young (CY) wedi gofyn a yw'n gallu rhoi diweddariad i'r panel yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf. Roedd CY wedi hysbysu LW bod yn rhaid i'r adroddiadau a'r canfyddiadau fynd trwy'r broses fewnol yn gyntaf. Awgrymodd HLL (ac os bydd gofyn gwneud hynny) cael un cyfarfod os bydd unrhyw beth yn codi rhwng nawr a'r cyfarfod nesaf, er mwyn i CY roi diweddariadau i'r panel.

**Gweithredu- Carwyn Young i roi diweddariad i aelodau'r panel am y blaengynllun gwaith ar gyfer Canolfan Llesiant Aberteifi yn ystod y cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.**

**<u>12.6 Unrhyw fater arall –</u>**

Hysbyswyd yr aelodau gan CM o Becyn Cymorth Stigma Tlodi y mae'r is-grŵp Tlodi yn ei ystyried ar hyn o bryd. Bydd y pecyn cymorth hwn yn codi ymwybyddiaeth o'r effaith y gall iaith ei chael ar bobl sy'n profi caledi a thlodi. Maent yn gobeithio symud y pecyn cymorth hwn yn ei flaen er mwyn galluogi sefydliadau i gynnal hunanasesiad a fydd yn gwerthuso eu defnydd o iaith amhriodol wrth ddarparu eu gwasanaethau. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen bach i symud hwn yn ei flaen, a bwriedir cynnal cyfarfod cychwynnol gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Hysbyswyd y grŵp gan RL o'r ffaith bod cynlluniau ar gyfer safle yr hen ysbyty wedi mynd yn ôl i'r hen gynlluniau nawr, sy'n cynnwys 20 fflat, prif swyddfa Wales and West, caffi a gardd synhwyraidd.  Y gobaith yw y bydd y penderfyniad hwn i fynd yn ôl i'r cynlluniau gwreiddiol yn hwyluso'r broses o ailgychwyn ar y gwaith ar y safle.

Hysbyswyd yr aelodau gan LW bod Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru a Chorsydd Teifi yn Aberteifi yn cynnal prosiect newydd ar hyn o bryd, a ariannir trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri, a'u bod yn ymgynghori ar gysylltiadau gyda'r ardal ar hyn o bryd a bod y gwaith hwn yn cael ei arwain ar eu rhan gan Sue Davies.  Mae'r cyfnod ymgynghori ar agor ar hyn o bryd, a gofynnir am gyflwyniadau erbyn diwedd mis Mai, '24.

**Gweithredu – Bydd Lynne Walters yn cysylltu â Chanolfan Bywyd Gwyllt Cymru a bydd yn rhannu manylion pellach y prosiect a'i amserlen ymgynghori gydag aelodau.**

Hysbyswyd y grŵp gan HLL o'r ffaith bod y datblygiadau ar hen Gapel y Tabernacl yn parhau, a bod hyn yn cynnwys ystyried y cam o sefydlu prosiect Celfyddydau a Threftadaeth yno a fydd yn canolbwyntio ar y diwydiant cerddoriaeth a "Fflach".  Rhoddir diweddariadau pellach am y fenter hon yn ystod y cyfarfod nesaf.

I orffen yr adran hon, cafwyd trafodaeth ynghylch creu cyfeiriadur o wasanaethau a fyddai'n cynnwys themâu, ac a fyddai'n gallu cynorthwyo Dull Gweithredu Systemau Cyfan (WSA) hefyd.

**Gweithredu- Bydd Cynghorydd Elaine Evans yn holi i weld a yw Cyngor y Dref yn ystyried unrhyw gyfeiriadur gwasanaethau neu brosiectau.**

Hysbysodd LW yr aelodau o Fforwm Bwrlwm, menter a gynhelir dan raglen ARFOR.  Mae LAFAN yn trefnu lle agored i bartneriaid ddod ynghyd a thrafod pynciau amrywiol trwy TEAMS.  Cynhelir Fforwm Bwrlwm trwy gyfrwng y Gymraeg a'i nod yw annog defnydd o'r Iaith Gymraeg mewn busnesau ac ar draws cymunedau mewn ffordd gadarnhaol.  Mae LW wedi bod mewn cysylltiad â LAFAN ac mae wedi gofyn am eu blaenraglen waith, a rhennir y manylion hyn gydag aelodau.  Anogir yr aelodau i ystyried cymryd rhan a hefyd, i rannu dolen Fforwm Bwrlwm gyda'u cydweithwyr a'u rhwydweithiau.

**Gweithredu- Bydd Lynne Walters yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid am weithgareddau rhwydweithio Fforwm Bwrlwm.**

Gan ymateb i gais uniongyrchol am gymorth gan bartneriaid gan RL, sy'n ystyried sefydlu teithiau ac anerchiadau lles yn y Dref dros y misoedd nesaf, cafwyd trafodaeth ynghylch eu sefydlu.  Gwnaethpwyd sawl awgrym gan aelodau a oedd yn enwi unigolion sydd wedi cael cyswllt uniongyrchol â threfnu teithiau cerdded yn yr ardal neu y maent wedi cynorthwyo eraill i'w gweithredu.  Cyfeiriwyd at Dawn Forster sydd wedi cydlynu prosiect am gerdded ar gyfer lles yng Ngheredigion, Paul Jones, y cydlynydd ymyriadau iechyd sydd â chyswllt uniongyrchol gyda'r canolfannau llesiant, Alison Pierce sy'n gweithio i Brifysgol Aberystwyth, Glen Johnson, yr hanesydd lleol sy'n cynnal teithiau cerdded diddorol

DRAFT

| |
|---|
| yn ardal Aberteifi a Julie Graham sydd wedi bod yn ymwneud â darparu sesiynau lles a arweinir gan y galw yn Llanbedr Pont Steffan ac mewn ardaloedd eraill ar draws y Sir.<br><br>**Gweithredu- Gwahodd y bobl/cynrychiolwyr canlynol i ymuno â rhestr ddosbarthu y grŵp hwn: Ann Owen, Partneriaeth/Rhwydwaith Bwyd Ceredigion, Canolfan Blant Jigso, Cardi-sheds, Canolfan Bywyd Gwyllt Cymru, grwpiau Coginio/Gweithgarwch a Choleg Sir Gâr/Ceredigion.**<br><br>**Camau Gweithredu – Yr aelodau i anfon unrhyw awgrymiadau ychwanegol am aelodau newydd i'r grŵp hwn ymlaen at partnerships@ceredigion.gov.uk** |
| **Cyfarfod nesaf: 17 Gorffennaf 2024** |

DRAFT